Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

Detect

Synhwyrydd Deiliadaeth / Enwresis

Canllaw Rhaglennu V 1.4

Mae’r ‘Detect’ yn synhwyrydd deiliadaeth amgen.

Yn syml ac yn hawdd ei ddefnyddio, gellir ffurfweddu’r synhwyrydd fel synhwyrydd deiliadaeth ac enwresis’ mewn un uned. Gall seinydd ddarparu cadarnhad sain ynghyd **â** dangosiad LED sy’n rhoi sicrwydd ychwanegol i ddefnyddwyr. Darperir dau fewnbwn terfynell RJ12 ar gyfer cysylltiadau dyfais luosog.

Canllaw Rhaglennu V 1.4





Cyflwyniad

Mae'r Cair Detect yn synhwyrydd deiliadaeth glyfar. Mae'n syml ag yn hawdd eu defnyddio, gall y Detect cael ei ddefnyddio fel synhwyrydd deiliadaeth neu enwresis mewn un uned. Mae seinydd adeiledig yn gallu rhoi cadarnhad clywadwy yn ogystal ag arwydd LED i roi sicrwydd ychwanegol i ddefnyddwyr. Mae yna dau mewnbwn RJ12 ar gyfer mats gwely, cadair ag enwresis. Mae gan y Detect nifer o foddau gwahanol, sydd yn hawdd eu rhaglennu drwy ddefnyddio'r deial a swîts mewnol tu fewn i'r adran batri.

Gweithrediad

Pan fydd yn cael eu defnyddio fel synhwyrydd deiliadaeth gwely/cadair (moddau 1-4), fydd y Detect yn actifadu pan fydd pwysau yn cael eu rhoi ar y pad gwely/cadair am fwy na 3 eiliad. Mi fydd y dangosydd LED yn goleuo yn ystod y cyfnod hwn. Os mae'r opsiwn sain wedi troi ymlaen (rhif 7 ar y deial), mi fydd bîp yn cael eu clywed ar ôl y 3 eiliad. Pan fydd pwysau yn cael eu codi oddi ar y pad, mi fydd y signal radio yn cael eu gyrru pan fydd yr oedi absenoldeb yn dod i ben. Mewn sefyllfa arferol, mi ddylai'r Detect cael ei leoli yn saff ar y llawr o dan neu du ôl y gwely/cadair, neu medrith cael eu gosod yn ei le efo strapiau, cebl etc. Dilynwch y cyfarwyddiadau isod ar sut i raglennu'r Detect.

Troi Ymlaen

I droi ymlaen, pwyswch a dal y switsh allanol. Bydd y dangosydd LED yn fflachio coch a gwyrdd ac yna'n cynhyrchu tôn uchel-draw yna fflach lliw gwyrdd byr sy'n cadarnhau ei fod ymlaen. Nawr rhyddhewch y switsh.

Diffodd

I ddiffodd, pwyswch a dal y switsh allanol. Bydd y dangosydd LED yn fflachio coch a gwyrdd ac yna'n cynhyrchu tôn isel-draw ac yna fflach lliw coch byr sy'n cadarnhau ei fod i ffwrdd. Nawr rhyddhewch y switsh.

Gweithrediad

Bydd y Detect yn weithredol pan fydd pwysau wedi'i roi ar y pad gwely / cadair am fwy na 3 eiliad. Bydd y dangosydd LED yn goleuo yn ystod y cyfnod hwn. Os yw'r opsiwn sain (Rhif 7 ar ddeial) wedi'i alluogi, clywir bîp cadarnhau ar ôl 3 eiliad.
Dilynwch y cyfarwyddiadau isod a drosodd ar sut i raglennu'r Detect.

Cysylltu'r Detect i'r Buzzz neu system dderbyn arall

1. Rhaglennu'r ddyfais i'r modd/opsiwn a ddymunir (os yr ydych yn defnyddio modd 1-4, sicrhewch fod yr oedi absenoldeb wedi ei osodo i amser byr).
2. Eisteddwch ar y pad gwely/cadair sydd wedi cysylltu efo Mewnbwn 1 (anwybyddwch y cam yma os yr ydych yn defnyddio mat enwresis).
3. Paratowch y Buzzz/system arall i fodd cofrestru.
4. Actifadu'r Detect gan symud oddi ar y pad gwely/cadair. Os yr ydych yn defnyddio mat enwresis, defnyddiwch gadach gwlyb i actifadu.
5. Mi ddylai'r Buzzz/system arall nawr cydnabod y ddyfais newydd.
6. Os defnyddio moddau 2 neu 4, ailadrodd camau 1-5 ag actifadu'r Detect yn defnyddio'r pad wedi cysylltu i Fewnbwn 2.

Nodyn: Wrth aseinio dyfais newydd, mae'r Buzzz a rhan fwyaf o systemau arall dim ond yn aros yn fodd 'actifadu'r ddyfais' am amser byr. Os yr ydych yn defnyddio'r Detect efo pad gwely neu gadair, sicrhewch fod yr oedi absenoldeb wedi eu gosod i actifadu yn sydyn yn gam 4 uchod.
Nodyn: Os yr ydych yn defnyddio mat enwresis, mae rhaid bod o wedi cysylltu efo Mewnbwn 1.

Oedi Absenoldeb

Ar ôl i'r moddau / opsiynau gael eu rhaglennu, trowch y deial i'r rhif a ddymunir sy'n cyfateb i'r amser oedi sy'n ofynnol. Nid oes angen pwyso a dal y switsh mewnol wedyn. Yr opsiynau oedi absenoldeb yw:

0 – 0.5 Eiliad 5 – 5 Munud
1 – 3 Eiliad 6 – 15 Munud
2 – 5 Eiliad 7 – 30 Munud
3 – 20 Eiliad 8 – 45 Munud
4 – 1 Munud 9 – 60 Munud

Nodyn: Mi fydd yr amseroedd yma yn wahanol ar Detects henach efo rhifau cyfresol cyn 22030742 (Blwyddyn - (22), Mis (03(Mawrth)), yr adeilad diwethaf y mis yn yw'r pedwar digid diwethaf). Mi roedd oedi'r Detect fel a ganlyn: 0(0.5e), 1(1e), 2(3e), 4(30e), 6(1m), 7(10m), 8(15m), 9(30m).

Moddau/Opsiynau

Mae'r Detect yn hawdd ei raglennu gan ddefnyddio'r deial sydd wedi'i leoli yn adran y batri. Mae'r deial wedi'i rifo 0-9, eglurir pob opsiwn isod:

0. Na chaiff ei ddefnyddio. (Dim ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer oedi absenoldeb 0.5 eiliad).

1. Modd 1. Bydd mewnbynnau 1 a 2 yn trosglwyddo'r un ID. Bydd y ddau fewnbwn yn 'gweithio gyda'i gilydd', er enghraifft: gallwch symud o'r gwely i'r gadair ac yn ôl eto heb godi galwad. Pan fydd y ddau bad yn wag am gyfnod hirach na'r oedi absenoldeb, anfonir yr un ID, dim ots ba bad a adawyd diwethaf. (Modd Arferol)

2. Modd 2. Bydd mewnbynnau 1 a 2 yn trosglwyddo ID gwahanol. Bydd y ddau fewnbwn yn 'gweithio gyda'i gilydd', er enghraifft gallwch symud o'r gwely i'r gadair ac yn ôl eto heb godi galwad. Pan fydd y ddau bad yn wag am gyfnod hirach na'r oedi absenoldeb, anfonir gwahanol ID, gan nodi pa bad a adawyd diwethaf. **Nodyn:** Mae rhaid i bob mewnbwn cael eu haseinio i'r Buzzz/system arall ar wahân

3. Modd 3. Bydd mewnbynnau 1 a 2 yn trosglwyddo'r un ID. Bydd y ddau fewnbwn yn gweithio'n annibynnol i'w gilydd.

4. Modd 4. Bydd mewnbynnau 1 a 2 yn trosglwyddo gwahanol ID. Bydd y ddau fewnbwn yn gweithio'n annibynnol a'i gilydd. **Nodyn:** Mae rhaid i bob mewnbwn cael eu haseinio i'r Buzzz/system arall ar wahân

5. Modd 'Virtual' - Ymlaen / I ffwrdd. Anfonir galwad pan fydd y pad yn cael ei ddefnyddio ac yn wag (yn ddelfrydol dylid defnyddio hwn gyda Modd 1). (Wedi ei diffodd fel arfer)

6. Opsiwn canslo ar y ddyfais - Ymlaen / I ffwrdd. Bydd galwad yn ailadrodd bob 2 funud nes bod y switsh allanol yn cael ei wasgu 3 gwaith. (Wedi ei diffodd fel arfer)

7. Opsiwn Sain - Ymlaen / I ffwrdd. Bydd sain pan fydd y ddeiliadaeth wedi'i chadarnhau ac eto pan anfonir galwad. (Wedi ei diffodd fel arfer)

8. Opsiwn Enwresis - Ymlaen / I ffwrdd. Bydd Mewnbwn 1 yn anfon galwad Enwresis. Bydd mewnbwn 2 yn gweithio ar wahân a gellir ei ddefnyddio gyda phad gwely / cadair. Dewisir modd 4 yn awtomatig. (Wedi ei diffodd fel arfer)

9. Ailosod i osodiadau ffatri. Mae'r dull hwn yn ailosod yr uned i fodd 1 gyda'r holl opsiynau wedi'u gosod fel maent yn yr osodiad ffatri

1. Dewiswch 9 ar y deial
2. Pwyswch a dal y switsh mewnol nes bod LED 2 yn newid lliw o goch i ambr a bod tôn yn cael ei chlywed.
3. Rhyddhewch y switsh mewnol, mae'r uned yn bîpio 9 gwaith tra bod LED 2 yn fflachio'n goch yn eu trefn.
4. Yna bydd y LED yn fflachio coch / gwyrdd bob yn ail.
5. Tra bod y LED yn fflachio coch / gwyrdd, pwyswch a rhyddhewch y switsh mewnol 3 gwaith.
6. Bydd yr uned yn cynhyrchu tôn uchel-draw a bydd y LED yn fflachio'n wyrdd ac yn goleuo ambr i gadarnhau'r ailosod.

Nodyn: Mae'n arfer da i ailosod yr uned i Fodd Rhif 9 bob amser os yw wedi'i defnyddio o'r blaen.
Nodyn: Dylid defnyddio dulliau 1, 2 a 5 ar gyfer deiliad sengl yn unig.

Rhaglennu'r Moddau/Opsiynau

I raglennu'r moddau/opsiynau, defnyddiwch y dull canlynol:

1. Trowch y deial i'r gosodiad a ddymunir
2. Pwyswch a dal y switsh mewnol gan ddefnyddio offeryn addas nes bod LED 2 yn newid lliw a'ch bod chi'n clywed sain (tua 2 eiliad)
3. Rhyddhewch y switsh mewnol. Bydd LED 2 a'r seinydd yn fflachio / bîpio i gadarnhau'r rhif modd rydych chi wedi'i ddewis.
4. Ailadroddwch gamau 1-3 ar gyfer moddau / opsiynau eraill
5. Gosodwch yr oedi absenoldeb fel y disgrifir isod.

Enghreifft Rhaglennu

Os hoffech chi:
- Dewis Modd 2 (Rhif 2 ar y deialu) (Camau 2 & 3 isod)
- Diffodd y sain (Rhif 7 ar y deialu) (Camau 4 & 5 isod)
- Gosod yr oedi absenoldeb i 5 eiliad (Rhif 2 ar y deialu) (Cam 6 isod)

Dilynwch y camau yma:

1. Ailosodwch yr uned i osodiad ffatri os yw wedi'i rhaglennu o'r blaen (Cyfeiriwch at Fodd / Opsiwn Rhif 9).
2. Trowch y deial i rhif 2
3. Pwyswch a dal y switsh mewnol gan ddefnyddio offeryn addas nes bod yr uned yn bîpio a LED 2 yn newid o goch i ambr (tua 2 eiliad). Bydd LED 2 a'r seinydd yn fflachio / bîpio dwywaith i gadarnhau'r modd/opsiwn rydych chi wedi'i ddewis
4. Trowch y deial i rhif 7
5. Pwyswch a dal y switsh mewnol gan ddefnyddio offeryn addas nes bod yr uned yn bîpio a LED 2 yn newid o goch i ambr (tua 2 eiliad). Bydd LED 2 a'r seinydd yn fflachio / bîpio saith gwaith i gadarnhau'r modd/opsiwn rydych chi wedi'i ddewis.
6. Trowch y deial i rhif 2 (Absenoldeb 5 eiliad)

Nodyn defnyddiol: Gellir cwblhau camau 2 a 4 mewn unrhyw drefn.

Canllaw Rhaglennu V 1.4

Manylebau

Amledd Gweithredu	869 MHz
Maint	H115 x Ll69 x D28 mm
Mewnbwn	2 x mewnbynnau RJ12
Opsiynau Rhaglennu	Switsh cylchdro hawdd ei ddewis
Opsiynau Sain	Opsiwn ar gyfer sicrwydd clywedol
Cyflenwad pŵer	Batris AA (Defnyddiwr i newid)
Bywyd Batri	3 blynedd o dan yr amodau canlynol - 5 gweithrediad larwm y dydd
Pellter gweithio ddi-wifr	Hyd at 600m
Cydymffurfio	CE / RoHS 2 / RED
Gwarant	24 mis

Amnewid Batri

Mae'n bwysig i ddefnyddio dau fatri 'Energizer L91 Ultimate Lithium AA' (M115-110)' i sicrhau'r oes batri fwyaf a bod y larwm cefndir batri isel yn gywir. Sylwch ar y marciau yn adran y batri a sicrhau bod y batris yn cael eu mewnosod yn gywir.

Pacio ar gyfer cludo

Rhaid i'r offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris gael eu pacio mewn pecynnau anhyblyg cryf a rhaid eu sicrhau rhag symud o fewn y deunydd pacio allanol i atal actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

Datganiad Cydymffurfiaeth

Mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, Cair Detect yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU

Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin. Defnyddiwch o dan do mewn lleoliad sych yn unig.

Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

Cair (UK) Ltd.
Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD
T: 01422 399 155 **E**: sales@we-cair.com
W: www.we-cair.com